YSGOL GYNRADD WR YR EGLWYS YNG NGHYMRU GELLISWICK

Ysgol gynradd newydd gwerth £12 miliwn i wasanaethu disgyblion yn ardaloedd Hakin a Hubberston.

Crëwyd Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Gelliswick yn sgil y penderfyniad i gau Ysgol Gymunedol Hakin ac Ysgol Gynradd a Meithrin Gwirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Hubberston. Byddai hyn yn galluogi cryfhau a datblygu'r ddarpariaeth addysg gynradd i ddisgyblion yn ardaloedd Hakin a Hubberston. Hefyd, cynigiwyd y byddai'r ardal yn nalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael ei chadw i wasanaethu'r ysgol newydd.

Sefydlwyd endid yr ysgol newydd ar 1 Medi 2017, gyda'r ysgol yn cynnig addysg ar draws y tri safle presennol cyn symud i'r adeilad newydd yn Ionawr 2018.

Prif resymau'r cynllun a'i fanteision, oedd:

- dod at ei gilydd ar un safle er mwyn codi safonau'n bellach;
- darparu cyfleusterau gwell ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Dysgu (Uned AAA), gan ddarparu rhagor o arbenigedd a darpariaeth mewn un lle a gwell trefniadau pontio;
- gwella'r amgylchedd dysgu er mwyn codi safonau a darparu cyfleusterau penodol ar gyfer integreiddio teuluoedd, sy'n hollbwysig er mwyn gwella lles a lefelau presenoldeb;
- gwella trefniadau pontio a chynllunio'r cwricwlwm;
- gwella llythrennedd a rhifedd drwy ysgol pob oed;
- gwella sgiliau cymdeithasol disgyblion gan fod disgyblion iau a hŷn yn cymysgu yn yr un lle;
- gwella cyfleodd ar gyfer cerddoriaeth/chwaraeon/darpariaeth y tu allan i'r ysgol/dysgu awyr agored;
- cael tîm arwain wedi'i leoli ar un safle;
- darparu cyfleusterau arbenigol wedi'u hadeiladu'n bwrpasol, gan gynnwys ystafelloedd cymunedol;
- gwell cost effeithlonrwydd wrth redeg y ddarpariaeth addysg yn y lleoliad daearyddol hwn wrth ddileu dyblygu diangen, gan alinio cynhwysedd a'r galw

(yng ngoleuni newid demograffig), gan gynhyrchu arbedion maint ac ehangu arbedion cwmpas; bydd hyn yn arwain at gael gwared ar leoedd dros ben;

- darparu amgylchedd dysgu hyblyg y gellir ei addasu ar gyfer yr 21ain Ganrif.

GWYBODAETH ALLWEDDOL	
LLEOLIAD	Heol Gelliswick, Hakin, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3RS
CATEGORI	Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru yw'r ysgol. Mae ganddo gymeriad crefyddol a fydd yn cydymffurfio â dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru, yn amodol ar ddarpariaethau Paragraff 3 o Atodlen 19 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
TREFNIADAU DERBYN	Cyngor Sir Penfro yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol newydd. Bydd polisi derbyn y Cyngor a'r meini prawf ar gyfer sefyllfaoedd pan fydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael yn berthnasol. Derbynnir yr ysgol newydd bechgyn a marched ac ni fydd darpariaeth ar gyfer dewis ar sail doniau na gallu.
RHIF DERBYN	68
YSTOD OEDRAN	3-11
CAPASITI – LLAWN AMSER	480
NIFER Y LLEOEDD MEITHRIN	60
LLEOEDD CANOLFAN ADNODDAU DYSGU	24
CATEGORI IAITH	Cyfrwng Saesneg (CS)
TRAFNIDIAETH YSGOL	Mae'r trefniadau cludiant yn cydymffurfio â'r gyfraith a pholisi'r Cyngor Sir.

GWYBODAETH YR ADEILADU

PENSAER: Penseiri Lawray / Austin Smith Lord

CONTRACTWR: Willmott Dixon

COST CYFALAF: £12,025,000

DYDDIAD CWBLHAU: Ionawr 2018

MANYLEBAU'R ADEILAD: Mae'r dyluniad yn seiliedig ar y meysydd sy'n cael eu hargymell yn nogfen yr Adran Addysg a Sgiliau – Bwletin Adeiladau 99 (2il Rhifyn): Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgol Gynradd.

Mae adeilad newydd yr ysgol yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth ar gyfer plant meithrin rhan-amser, saith ystafell ddosbarth Cyfnod Sylfaen, naw ystafell ddosbarth Cyfnod Allweddol 2, dwy ystafell ddosbarth anghenion cymhleth – un i bob cyfnod, ystafell gymunedol a neuadd fechan gysylltiedig, prif neuadd fawr, ardaloedd staff a gwaith gweinyddol, ystafell feddygol ac ystafell gynadleddau/cyfarfodydd.

Mae'n cynnwys Canolfan Adnoddau Dysgu gyda lle i 24 o ddisgyblion ag anghenion cymhleth. Bydd y Ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, fel y'u diffinnir gan Adran 312 (1) Deddf Addysg 1996, a bydd hefyd yn cefnogi darpariaeth ar gyfer dysgwyr â'r ystod ehangach o anghenion dysgu ychwanegol (ADY).